Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn Y Forwyn
**Darran Terrace**
**Glynrhedynog**
**Rhondda**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF43 4LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn Y Forwyn

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn ym mhentref Glynrhedynog yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 190 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 21 oed meithrin amser llawn ac 8 rhan-amser. Trefnir y disgyblion yn 7 dosbarth oed sengl ac un oed cymysg.

Tros dreigl tair blynedd, tua 23% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 30% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2009 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i’r staff a’r disgyblion, sy’n sicrhau cyfeiriad strategol clir i’r ysgol, a diwylliant sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus.  Mae gan holl aelodau’r staff weledigaeth gadarn i hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion i wneud eu gorau.  Mae’r staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio’n dda iawn i sicrhau bod ethos yr ysgol yn un gofalgar a bod gweithdrefnau ar waith i roi sylw i les uchel y disgyblion.  Mae’r llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol yn dda.

Mae’r ysgol yn gymuned hapus lle mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da o’u man cychwyn.  Mae’r disgyblion yn defnyddio’r iaith Gymraeg gyda balchder. Mae hyn yn treiddio trwy holl waith a bywyd yr ysgol.  Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda am gyfnodau hir.  Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda, y tu mewn i’r dosbarth ac o amgylch yr ysgol.  Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr yn aeddfed a chyda pharch a chwrteisi.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisadau mewn perthynas â’u dysgu fel eu bod yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol

A2 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

A3 Sicrhau bod athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu cwricwlwm sy’n gytbwys ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gwyddonol y disgyblion yn benodol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob un disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill ac yn siarad yn eglur wrth rannu eu syniadau'n hyderus. Maent yn trafod testunau amrywiol fel effaith twristiaeth ar yr Antarctig yn aeddfed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn awyddus iawn i gynnig atebion, sylwadau a mynegi barn yn raenus yn y Gymraeg wrth siarad am eu gwaith. Mae bron pob un yn dangos balchder angerddol tuag at yr iaith Gymraeg ac maent yn frwdfrydig i'w defnyddio wrth gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn hawdd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd pwrpasol wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dethol deunyddiau darllen yn annibynnol, gan gynnig rhesymau synhwyrol am eu dewis. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb ac yn mwynhau darllen ar goedd, gan wneud hyn yn gynyddol hyderus. Maent yn hoffi trafod cymeriadau llyfrau'r dosbarth fel mam-gu'r hugan fach goch, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ddarllenwyr annibynnol sy'n cywain, galw i gof a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol yn gwbl annibynnol. Maent yn mynegi barn am gymeriadau, agweddau ac arddull awduron yn briodol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ddwyn i gof hanes Rama a Sita ac anturiaethau'r Gryffalo. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn Blwyddyn 6 mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o ffurfiau ar draws y rhan fwyaf o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu am hanes Anne Frank neu gyflwyno ffeithiau am Walt Disney. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae llawer o ddisgyblion y blynyddoedd cynnar yn adnabod gwrthrychau sy'n fwy neu'n llai nag eraill ac yn mesur taldra eu cyfoedion drwy ddefnyddio unedau ansafonol yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir wrth chwarae rôl yn siop gacennau'r dosbarth, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn gweithgareddau rheolaidd ar draws llawer o bynciau'r cwricwlwm, er enghraifft wrth

gymharu pellteroedd teithiau bwyd o amgylch y byd a chyfrifo cost nwyddau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd i gasglu, cofnodi na dadansoddi data yn ddigon aml, yn enwedig mewn gwersi gwyddoniaeth.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol wrth dynnu llun a recordio'u lleisiau. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith ar yr Antarctig. Maent yn dechrau defnyddio taenlenni'n addas er mwyn cyfrifo pris y byrger gorau i'w fwyta mewn parti. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau TGCh yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt yn y maes hwn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yno, ac maent yn gwerthfawrogi bod yr amgylchedd yn un gofalgar a chyfeillgar. Pan fo angen, mae'r disgyblion yn hyderus bod athrawon yn ymateb yn brydlon ac yn briodol i'w pryderon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch tuag at holl oedolion ac maent yn ystyriol o anghenion eraill. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae bron pob un disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn safon eu gwaith. Maent yn arddangos agweddau a chymhelliant da tuag at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn arbennig o dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Trwy waith effeithiol y Cyfeillion Cŵl, mae ymddygiad y rhan fwyaf yn ystod amseroedd chwarae a chinio hefyd yn nodwedd dda o waith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn foesgar, yn rhannu'n dda gyda'i gilydd, yn aros eu tro ac yn gwrando'n astud ar eraill. Mae llawer o'r disgyblion yn garedig, yn cynnig help llaw i'w cyfoedion ac yn cefnogi ei gilydd ar adegau sy'n anodd a sensitif iddynt.

Mae llais y disgybl wedi'i dreiddio'n llwyddiannus i lawer o agweddau o fywyd yr ysgol. Un enghraifft effeithiol yw'r ffordd y mae'r disgyblion wedi creu cymeriadau i gynrychioli pedwar diben y cwricwlwm i Gymru, fel Myfanwy mentrus ac Ilan uchelgeisiol. Maent yn defnyddio'r cymeriadau hyn yn effeithiol i oresgyn heriau wrth weithio'n unigol neu gyda'i gilydd mewn grwpiau. Gall llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol arddangos dealltwriaeth gref o fedrau annibyniaeth, medrau meddwl a dyfalbarhad, er enghraifft. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch iawn o'u Cymreictod ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd tuag at ddysgu. Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith a llwyddo mewn tasgau penodol. Ar frig yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth aeddfed o'u cyrhaeddiad a'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi dechrau cyfrannu'n effeithiol wrth ddewis thema a chynnig syniadau diddorol am beth yr hoffent ei ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ymchwilio ac yn trafod o blaid ac yn erbyn cadw anifeiliaid mewn caethiwed. Fodd bynnag, nid yw cyfraniad disgyblion y cyfnod sylfaen mor amlwg mewn perthynas â hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio'n llawn ar, ac yn ymfalchïo yn, y cyfleoedd eang a gânt i gynrychioli disgyblion eraill ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. O dan arweiniad y cyngor eco, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o gynaliadwyedd yn datblygu'n dda. Trwy redeg siop ffrwythau masnach deg, mae'r staff yn annog y disgyblion i wneud penderfyniadau doeth ar sut i fwyta'n iach. Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut mae ymarfer corff rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd, iechyd a lles corfforol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn gwrando'n ofalus ar syniadau eu cyfoedion ac yn gweithredu ar eu syniadau. Yn ddiweddar, er enghraifft, maent wedi cyflwyno wal ddringo dan do i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i ymarfer eu medrau ymarferol yn ystod amser egwyl.

Mae aelodau'r Criw Cymraeg yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at y Gymraeg, ac maent yn ddylanwad allweddol i feithrin Cymreictod ar draws yr ysgol. Maent yn ymdrechu i gael pob disgybl i hyrwyddo'r iaith yn llwyddiannus yn ystod gwersi a chyfnodau egwyl. O ganlyniad, mae defnydd ac agwedd rhan fwyaf y disgyblion tuag at yr iaith Gymraeg yn gryf iawn ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n ddinasyddion moesol cydwybodol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o wahanol elusennau drwy eu gweithgareddau mentergarwch blynyddol. Mae ymweliadau wythnosol â chartref yr henoed gan lawer o ddisgyblion o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 6, yn cryfhau eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill yn dda.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol. Caiff disgyblion eu hannog i wneud eu gorau ac i ddyfalbarhau mewn awyrgylch tawel a gweithgar. Gwneir defnydd gwerthfawr o staff cymorth gan athrawon ar draws yr ysgol. Mae staff yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Mae'r staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac mae eu hanogaeth i les y dysgwyr yn datblygu eu hyder yn llwyddiannus. Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad y disgyblion.

Mae'r cyfleoedd rheolaidd a ddarperir gan yr holl staff i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan naturiol o holl waith yr ysgol. Mae bron pob aelod o staff yn fodelau rôl cadarn i ddisgyblion o ran defnyddio'r iaith. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau siarad a gwrando'r disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus drwy weithgareddau'r cwricwlwm gan ddarparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion astudio gwaith artistiaid, cerddorion a'r amgylchfyd lleol.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn sicrhau rhediad da i'w gwersi. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gosod tasgau heriol sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio'u gwybodaeth flaenorol a'u medrau meddwl i geisio datrys y broblem o gynhesu byd-eang, er enghraifft.

Mae athrawon yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i helpu disgyblion ddeall cysyniadau newydd ac i ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau. Mae eu hadborth llafar yn canolbwyntio'n dda ar sut y gall disgyblion wella eu gwaith. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad da i wella agweddau penodol ar eu gwaith. Darperir cyfleoedd rheolaidd gan staff i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod beth maent wedi'i wneud yn dda ac i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith ymhellach.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn amrediad o brofiadau dysgu priodol. Mae'r themâu trawsgwricwlaidd newydd yn dechrau ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion yn lled gyson ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n addas. Fodd bynnag, ar adegau, mae oedolion yn gor-arwain gweithgareddau, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau penodol ynglŷn â'u dysgu. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol yn nosbarthiadau hŷn y cyfnod sylfaen.

Mae'r ysgol gyfan wedi dechrau cynllunio'n briodol yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae athrawon a disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyd-gynllunio'n llwyddiannus ac mae'r disgyblion yn gwneud dewisiadau penodol ynghylch beth yr hoffent ei ddysgu a sut. Mae nifer o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 wedi ymchwilio i afiechydon môr-ladron tra bod eraill ym Mlwyddyn 3 wedi cymharu bywyd ym mhyllau glo'r Rhondda gyda bywyd heddiw. Fodd bynnag, cyfyng iawn yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio agweddau o'u medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol, yn arbennig wrth ddefnyddio data i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol. Mae athrawon yn dechrau cynllunio i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith. Maent yn darparu cyfleoedd addas i alluogi'r disgyblion i ddefnyddio'u medrau TGCh mewn cyd-destunau amrywiol fel creu ffilmiau byr i gyfleu hanes a bywyd Hedd Wyn, er enghraifft.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, weithgar a chynhwysol. Mae'r staff yn creu ymdeimlad gofalgar a chartrefol sy'n cael ei adlewyrchu yn ymddygiad parchus a chwrtais y disgyblion. Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel o ran ymdrech a lles y disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ddisgyblion mentrus a hyderus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae'r staff yn adnabod gofynion addysgol a phersonol disgyblion yn dda iawn ac yn defnyddio'r wybodaeth gynhwysfawr i nodi anghenion y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol. Drwy nifer o weithgareddau llythrennedd, mae'r staff yn sicrhau bod pob disgybl yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i lwyddo yn eu dysgu. Mae gan y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau dysgu unigol manwl ac mae'r targedau'n benodol ac yn fesuradwy. Ceir mewnbwn rheolaidd gan y disgyblion i bennu eu targedau ac mae cyfarfodydd effeithiol i drafod eu cynnydd gyda'r rhieni. Defnyddir staff cymorth dysgu yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i gynorthwyo disgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni cymorth gwerthfawr. Mae'r gefnogaeth hon yn helpu'r disgyblion i ymgysylltu'n dda iawn â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella'u safonau a'u deilliannau.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu anghenion emosiynol y disgyblion ac ar annog ymddygiad da. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu sesiynau amlgyfrwng a chymdeithasol arbennig yn rheolaidd. Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi disgyblion i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach cynhaliol ac yn eu helpu i ymdopi'n dda â bywyd o ddydd i ddydd. Mae'r Cyfeillion Cŵl yn cynnig 'clust i wrando' i'w cyfoedion, sydd hefyd yn annog y disgyblion i rannu pryderon mewn amgylchedd llai ffurfiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu eu hyder ac yn ymgysylltu'n fwy hyderus â'u gwaith.

Mae perthynas gefnogol yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol drwy lythyron a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn arbennig o dda ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol iawn â bron pob un ohonynt. Drwy gynnal bore coffi tymhorol, mae'r ysgol yn arwain teuluoedd at gefnogaeth arbenigol fel yr asiantaeth ymddygiad, er enghraifft, pan fydd yn briodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy nifer o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus drwy sesiynau cylch ac mewn gwersi perthnasol. Mae'r staff yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion brofi elfennau ysbrydol trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a dysgu am egwyddorion crefyddau amrywiol mewn gwersi. Drwy weithgareddau ysgol gyfan fel 'cerdyn coch i hiliaeth', mae'r disgyblion yn magu parch tuag at bobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd yn briodol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfyng i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach, ond nid yw'r elfen hon wedi datblygu'n llawn.

Mae gan yr ysgol ganllawiau addas i wella presenoldeb. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno her 'deg diwrnod 'dolig' ar ddiwedd y tymor i annog y disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y strategaeth hon ar ddata presenoldeb yr ysgol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn fwriadus. Mae'r ysgol yn cynnig nifer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau,canu yng nghôr yr ysgol ac i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hyder a medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gydag artistiaid o Gymru i greu murluniau a chartwnau. Mae ymweliadau addysgol i leoedd diddorol fel Parc Treftadaeth y Rhondda a'r penwythnos preswyl i wersyll yr Urdd yn Llangrannog yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes lleol a thu hwnt yn effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio'n gadarn ar godi safonau, lles a Chymreictod y disgyblion. Mae holl staff yr ysgol yn gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae'r cydweithio sy'n bodoli i sicrhau gwelliant o fewn ethos cynhaliol, Cymreig yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad strategol cadarn a chlir ac yn gosod disgwyliadau uchel. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau yn synhwyrol ac yn sicrhau bod gan bob aelod staff gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau arwain. O ganlyniad, mae pob aelod staff yn deall eu rolau ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol. Mae staff yn monitro cyflawniadau'r disgyblion yn gyson a manwl, sy'n arwain at welliannau yn safonau rhifedd a llythrennedd rhan fwyaf o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi mynd i'r afael â sicrhau gwell darpariaeth i ddatblygu medrau gwyddonol y disgyblion.

Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn drylwyr ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, yn cynnwys olrhain cynnydd disgyblion ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gref a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae cyswllt clir yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r staff yn monitro prif flaenoriaethau'r cynllun yn rheolaidd er mwyn mesur llwyddiannau'r gweithgareddau. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes o sicrhau gwelliant parhaus. Enghraifft nodweddiadol o lwyddiant yw'r gwelliannau yn safonau llafaredd y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg, gan ddefnyddio iaith gywir a graenus yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad proffesiynol y staff ac at wella eu harfer. Maent yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, wedi i'r arweinwyr ymweld ag ysgol arall, maent wedi cyflwyno rhaglenni ymyrraeth sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar les ac ymddygiad nifer sylweddol o ddisgyblion. Yn dilyn cyrsiau hyfforddiant, mae'r staff yn rhannu arferion da â'u cydweithwyr. Mae hyn yn dylanwadu'n fuddiol ar wella medrau'r staff, ac yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu effeithiol sy'n bodoli trwy'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at werthuso gwaith yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ffrindiau beirniadol effeithiol, sy'n herio arweinwyr yn fedrus er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol iawn a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio arbenigwyr i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dylunio a thechnoleg a pherfformio. Mae'r ardaloedd dysgu dan do yn ddeniadol iawn ac yn hybu'r dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ardaloedd awyr agored wedi eu datblygu i'r un safon, a phrin yw'r defnydd a wneir ohonynt.

Mae'r ysgol yn ymateb yn bwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu medrau llythrennedd y disgyblion yn gadarn ar draws pob maes dysgu a sefydlu'r Siarter Iaith i godi safonau llafar Cymraeg y disgyblion. Mae'r ysgol wedi dechrau addasu ei chynllunio ar gyfer bodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, araf yw'r ysgol wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli gwariant yn ofalus. Maent yn mesur effaith rhaglenni a gweithgareddau ar ddeilliannau'r disgyblion yn ofalus i sicrhau eu bod yn gost-effeithiol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau lles a llythrennedd y disgyblion sy'n deilwng o'i dderbyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr a1mod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2019